MAKE uk
The Manufacturers' Organisation

# MANIFFESTO'R GWNEUTHURWYR
## ETHOLIAD Y SENEDD 2026



# CYFLWYNIAD

Mae gweithgynhyrchu yn chwarae rhan allweddol yn economi Cymru. Mae'n cyfrif am 15.6% allbwn cenedlaethol Cymru, sydd ymhell uwchlaw cyfartaledd y DU o 9.1%. Mae Cymru'n cyfrannu 3.3.% at gyfanswm allbwn economaidd y DU, gyda gweithgynhyrchu yng Nghymru yn cyfrannu 0.5% at gyfanswm allbwn y DU. Y tu hwnt i bwysigrwydd economaidd, mae gweithgynhyrchu yng Nghymru hefyd yn helpu i fynd i'r afael â heriau sylweddol megis newid yn yr hinsawdd ac ansefydlogrwydd cadwyni cyflenwi byd-eang.

Ledled y wlad, o Ynys Môn i Aberystwyth, o Gaerdydd i Glwyd, mae busnesau gweithgynhyrchu o bob maint yn gadael eu hôl. Nid ffatrïoedd sy'n troi nwyddau allan yn unig yw'r rhain, ond peiriannau o ffyniant lleol, sy'n rhoi bywyd i gymunedau ac yn gyrru economïau yn eu blaen. Mae cadarnleoedd y sector yn bennaf mewn ardaloedd gwledig a rhanbarthol sydd yn cael eu hanwybyddu gan y sbotolau sy'n ffafrio Llundain a de Ddwyrain Lloegr. Y cwmnïau hyn yw asgwrn cefn y rhanbarthau sydd yn awyddus i sicrhau twf.

Ond nid swyddi yw'r unig beth sydd dan sylw; mae datblygu sgiliau o bwys hefyd. Mae gweithgynhyrchwyr yn meithrin y genhedlaeth nesaf o dalent ac yn cadw sgiliau'n fyw mewn cymunedau. Nid gweithleoedd yn unig mo'r rhain; maent yn guriad calon trefi, sy'n creu ymdeimlad o berthyn ac addewid o gyfle. Maent yn denu buddsoddiad, yn dod ag arloesedd, ac yn llunio hunaniaeth ein trefi a'n dinasoedd.

Ond nid dyna'r cyfan. Mae gweithgynhyrchwyr yn llygadu'r dyfodol, ar wynebu economi sero-net a chroesawu technolegau arloesol megis Deallusrwydd Artiffisial a digideiddio. Eu nod? Dim byd llai na dod yn economi fwyaf arloesol y byd. Nid ydynt yn fodlon â'r sefyllfa sydd ohoni; maent yn ymdrechu am ddyfodol lle mae cynaliadwyedd a ffyniant yn plethu.

Wrth edrych i'r dyfodol, mae'n amlwg bod yn rhaid i weithgynhyrchu yn y DU esblygu er mwyn achub y blaen ar y llwyfan byd-eang. Mae gweithgynhyrchwyr ar draws Cymru'n gosod nodau uchelgeisiol i ysgogi twf wrth gydymffurfio â thargedau cynaliadwyedd cenedlaethol a rhyngwladol.

Gyda'n gilydd, drwy bolisi doeth, cymhelliannau strategol, a phartneriaethau cydweithredol, gallwn arwain y ffordd at ddyfodol mwy disglair, gwyrdd a ffyniannus ar gyfer pawb yng Nghymru.

# BLAENORIAETHAU GWEITHGYNHYRCHU

## I GYMRU

Mae'r sector gweithgynhyrchu yng Nghymru yn cynrychioli

**£12 BILIWN O GYNHYRCHIANT**

Gan ddarparu **138,000 O SWYDDI**

**CYFLOGAU CYFARTALOG 19% YN UWCH**

na gweddill yr economi yn y rhanbarth

### 1.

Cefnogwch wneuthurwyr yn y rhanbarth i **ddarparu swyddi ar gyfer y dyfodol** drwy ddatblygu rhaglenni sgiliau rhanbarthol. Mae'r mentrau hyn yn darparu'r sgiliau sydd eu hangen ar weithgynhyrchwyr, gan roi cychwyn da i yrfaoedd myfyrwyr mewn sector cyffrous sy'n talu'n dda.


### 2.

**Cefnogwch y twf parhaus mewn arallgyfeirio diwydiannol** yn y rhanbarth drwy bolisiau sy'n galluogi'r gwaith o weddnewid y sector gweithgynhyrchu, i wneud y mwyaf o'r diwydiannau byrylymus a newydd sy'n amlygu eu hunain ledled Cymru, ac sy'n canolbwyntio ar Sero Net, digideiddio a chryfhau sgiliau'r gweithlu.

### 3.

**Uwchraddio rhwydweithiau trafnidiaeth** gan gynnwys ffyrdd a chysylltiadau cyhoeddus. Gall ansawdd y seilwaith fod yn rhwystr rhag llwyddo i gael llafur a sgiliau, sef curiad calon y sector gweithgynhyrchu. Yn ogystal, mae gwneuthurwyr, yn fwy na neb arall, yn gwneud defnydd o rwydweithiau ffyrdd a rheilffyrdd am resymau logisteg.

# GWEITHGYNHYRCHU YNG NGHYMRU



OFFER TRAFNIDIAETH **18%**

BWYD A DIOD **15%**

CYNNYRCH METEL **11%**

GWEITHGYNHYRCHU ARALL* **56%**

*Y swm o is-adrannau heb eu cynnwys yn y 3 uchaf

Ffynhonnell: ONS (2026)

**MAE CYMRU**
YN CYFRANNU
**6%**
O HOLL
**ALLFORION NWYDDAU Y DU**

MAE'R WLAD YN GWELD
**61%**
O'I HALLFORION
**YN MYND I'R UE**
SYDD YN LLAWER UWCH NA
**CHYFARTALEDD Y DU O 50%**

**Golyga hyn mai Cymru sy'n dibynnu fwyaf ar yr UE am allforion** (ac eithrio Gogledd Iwerddon)

Y GYRCHFAN FWYAF
**WEDI HYNNY AR GYFER NWYDDAU O**
GYMRU YW
**GOGLEDD AMERICA**
SEF
**15%**
O ALLFORION NWYDDAU

Gydag
**Asia ac Oceania yn ail sef 13% o'r holl arforion nwyddau**

**MAE GWEITHGYNHYRCHU**
YN CYFRANNU
**15.6%**
O HOLL
**GYNHYRCHIANT CYMRU**

**CYNHYRCHIANT CYMRU**
YW'R
**9FED GORAU**
YN Y DU SEF
**83.7%**

# AMCANION AR GYFER LLYWODRAETH NESAF CYMRU

**Yn ein Maniffesto'r Gwneuthurwyr, rydym wedi amlinellu 5 maes y dylai Llywodraeth nesaf Cymru eu blaenoriaethu**

1. **Strategaeth esblygol ar gyfer Cymru**

   Sicrhau bod Cynllun Gweithredu Gweithgynhyrchu Cymru yn gweithio'n effeithiol ac yn unol â Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU.

2. **Agenda sgiliau sy'n gweithio i Gymru**

   Mae 39% o weithgynhyrchwyr y DU yn dweud mai prinder llafur/ mynediad at sgiliau yw'r her fwyaf sy'n eu hwynebu yn y 24 mis nesaf.

3. **Buddsoddiad tymor hir mewn Seilwaith**


   Seilwaith yw asgwrn cefn yr economi. Mae seilwaith sydd wedi'i ddatblygu'n dda yn denu buddsoddiad a phobl sy'n cyfoethogi cymunedau.

4. **System Gynllunio i Annog Twf**

   Mae 44% o weithgynhyrchwyr yn dweud mai oedi yn ystod y broses gynllunio ar gyfer ehangu busnesau yw'r her fwyaf sy'n wynebu gweithgynhyrchwyr yng Nghymru.

5. **Cynllun i ddatgloi arloesedd a chyflymu mabwysiadu digideiddio ac awtomeiddio**

   Mae 56% o weithgynhyrchwyr yn dweud y byddai buddsoddi mewn digideiddio a Deallusrwydd Artiffisial yn i helpu i dyfu'r sector gweithgynhyrchu yng Nghymru.



# STRATEGAETH ESBLYGOL AR GYFER CYMRU

Mae Cymru wedi arwain y ffordd wrth ddarparu strategaeth gynhwysfawr ar gyfer diwydiant i'w gweithgynhyrchwyr. Mae Cynllun Gweithredu Gweithgynhyrchu Cymru wedi darparu sefydlogrwydd a chyfeiriad ar gyfer y sector yng Nghymru.

Mae'r gefnogaeth hon wedi'i chryfhau ymhellach gan Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU, a fydd yn darparu strategaeth gadarn, hirdymor, ac sydd a gweithgynhyrchu wrth ei chalon ar gyfer gweithgynhyrchwyr yng Nghymru.

Mae gweithgynhyrchwyr nawr yn edrych ar sut bydd y Strategaeth Ddiwydiannol yn cael ei gweithredu. Rhaid i'r Strategaeth Ddiwydiannol ganolbwyntio ar sgiliau, costau ynni a mynediad at gyllid.

Fodd bynnag, gyda'r ddwy strategaeth ar waith i helpu gweithgynhyrchwyr yng Nghymru, mae'n hanfodol bod Cynllun Gweithredu Gweithgynhyrchu Cymru yn gallu addasu i Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU i ddarparu'r cyfle unigryw i Gymru o ddwy strategaeth gadarn, gan roi cefnogaeth i weithgynhyrchwyr Cymru dyfu.


## ARGYMHELLIAD

Ymrwymo i adolygiad llawn o Gynllun Gweithredu Gweithgynhyrchu Cymru bob blwyddyn, i sicrhau ei fod yn gweithio ochr yn ochr â Strategaeth Ddiwydiannol y DU.

# AGENDA SGILIAU SYDD YN GWEITHIO I GYMRU

Er gwaethaf bwriadau da yng Nghymru, nid yw diwygiadau sgiliau dros y degawd diwethaf wedi galluogi gweithgynhyrchwyr i recriwtio a hyfforddi'r bobl sydd eu hangen arnynt. Mae 61% o weithgynhyrchwyr yn dweud y byddai ffocws ar brentisiaethau a hyfforddiant lefel mynediad yn helpu'r sector gweithgynhyrchu yng Nghymru a dywedodd 36% o weithgynhyrchwyr y byddai uwchsgilio'r gweithlu a rhaglenni hyfforddiant yn helpu twf.

Mae Cymru yn amlwg mewn sefyllfa anodd o ran cyllid sgiliau. Mae'r arian mae gweithgynhyrchwyr yn ei dalu yn yr ardoll brentisiaethau yn mynd yn syth yn ôl i Lywodraeth y DU ac nid i adran sgiliau ddatganoledig Cymru. Rhaid i weithgynhyrchwyr yng Nghymru weld mwy o'r cyllid ar gyfer prentisiaethau a sgiliau yng Nghymru sydd wedi'i neilltuo gan Lywodraeth Cymru.




o weithgynhyrchwyr yn dweud mai diffyg sgiliau technegol a galwedigaethol yw'r her fwyaf yng Nghymru

## ARGYMHELLIAD


Neilltuo cyllid ar gyfer prentisiaethau yng Nghymru i sicrhau bod arian a delir gan weithgynhyrchwyr yng Nghymru i'r ardoll brentisiaethau yn cael ei ddychwelyd i Gymru i'w ddefnyddio ar gyfer prentisiaethau a sgiliau.

# BUDDSODDIAD HIRDYMOR MEWN SEILWAITH

Seilwaith yw asgwrn cefn yr economi. Mae seilwaith sydd wedi'i ddatblygu'n dda yn denu buddsoddiad a phobl sy'n cyfoethogi cymunedau.

Yng Nghymru, mae 44% o weithgynhyrchwyr yn dweud y dylai buddsoddiad mewn seilwaith ffisegol fod yn brif flaenoriaeth er mwyn annog twf gweithgynhyrchu yng Nghymru. Mae 67% o weithgynhyrchwyr yn dweud fod seilwaith trafnidiaeth yn wael yng Nghymru, o gymharu â 33% sydd yn dweud fod seilwaith trafnidiaeth yn dda.

Mae angen gwelliannau sylweddol i gapasiti trafnidiaeth hefyd - yn enwedig ar hyd coridor yr M4. Mae 67% o weithgynhyrchwyr o blaid adeiladu Ffordd Osgoi'r M4. Byddai buddsoddiad sylweddol mewn seilwaith yn golygu y gellid ail-gydbwyso'r economi a galluogi twf diwydiannol.




o weithgynhyrchwyr yn dweud y dylai buddsoddiad mewn seilwaith ffisegol fod yn brif flaenoriaeth er mwyn annog twf gweithgynhyrchu yng Nghymru

## ARGYMHELLIAD

Gweithio gyda Llywodraeth y DU i ariannu adeiladu Ffordd Osgoi'r M4, er mwyn darparu gwell seilwaith trafnidiaeth ar gyfer gweithgynhyrchwyr yn ne Cymru a chefnogi gweithwyr i gael mynediad rhwydd i'w gweithleoedd.

# SYSTEM GYNLLUNIO I ANNOG TWF

**44%** o weithgynhyrchwyr yn dweud mai oedi yn ystod y broses gynllunio ar gyfer ehangu busnesau yw'r her fwyaf yng Nghymru

## ARGYMHELLIAD

Adolygiad llawn o brosesau cynllunio yng Nghymru ar lefel leol a chenedlaethol, gyda'r bwriad o lacio rheoliadau cynllunio ac annog gweithgynhyrchwyr i fuddsoddi a datblygu eu safleoedd a'u busnesau i gynyddu cynhyrchiant.

# CYNLLUN I DDATGLOI ARLOESEDD A CHYFLYMU MABWYSIADU DIGIDEIDDIO AC AWTOMEIDDIO

Trwy ein prifysgolion sy'n arwain y byd ac ymchwil a datblygu o'r radd flaenaf dan arweiniad diwydiant, mae gwyddoniaeth ac arloesedd yn chwarae rhan ganolog wrth annog ffyniant a thwf economaidd yn y DU. Mae ein harbenigedd mewn arloesedd a chreadigrwydd yn serennu, ond wrth gyflwyno'r arloesedd hyn i'r farchnad, rydym ar ei hôl hi.


Mae'r sector gweithgynhyrchu yn profi cyfnod o weddnewid, gyda thechnolegau a bwerir gan y Pedwerydd Chwyldro Diwydiannol yn ailddyfeisio cynnyrch a phrosesau cynhyrchu. Trwy awtomeiddio a thechnolegau digidol newydd, mae gweithgynhyrchwyr y DU yn ail-lunio ein heconomi er gwell. Tra bod rhai busnesau eisoes yn elwa o'r manteision, mae yna amryw o weithgynhyrchwyr sydd heb ddechrau ar eu taith ddigidol eto.

Gyda 67% o weithgynhyrchwyr yn datgan mai Deallusrwydd Artiffisial yw'r cyfle mwyaf i'r farchnad yng Nghymru, mae manteision buddsoddiadau o'r fath yn aruthrol. Gall mabwysiadu Deallusrwydd Artiffisial wella cynhyrchiant yn sylweddol a lleihau costau gweithredol. Fodd bynnag, disgwylir i'r enillion cynhyrchiant mwyaf o fabwysiadu dulliau digidol ddigwydd o fewn mentrau bychan a chanolig (BBaChau).

## ARGYMHELLIAD

Ehangu cylch gwaith Clystyrau Diwydiannol Cymru i ddarparu cefnogaeth ar gyfer rhoi digideiddio a Deallusrwydd Artiffisial ar waith.

Darparu rhyddhad cyfraddau busnes ar gyfer gweithgynhyrchwyr sydd yn buddsoddi mewn digideiddio a deallusrwydd artiffisial.




o weithgynhyrchwyr yn dweud y byddai buddsoddi mewn digideiddio a Deallusrwydd Artiffisial yn helpu i dyfu'r sector gweithgynhyrchu yng Nghymru

Mae Make UK yn llais cadarn yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol ar gyfer cwmnïau o bob maint yn y sector gweithgynhyrchu a pheirianneg.

Rydym yn creu amgylchedd cefnogol ar gyfer twf a llwyddiant o fewn maes gweithgynhyrchu'r DU, ac yn cynrychioli'r materion sydd bwysicaf i'n haelodau, gan weithio'n galed i sicrhau bod sector gweithgynhyrchu'r DU yn parhau i gael sylw'r llywodraeth a'r cyfryngau.

Mae ein gwasanaethau'n helpu gweithgynhyrchwyr i gynyddu effeithlonrwydd, cynhyrchiant, a galluedd ar draws rhai meysydd megis AD a chymorth cyfreithiol, iechyd, diogelwch a chynaliadwyedd, cydymffurfiaeth, a hyfforddiant a sgiliau.

Mae ein harbenigwyr AD wrth law i'ch cefnogi drwy'r cylch cyflogaeth cyfan, o heriau ynghylch recriwtio, cadw ac ymgysylltu â staff, i faterion strategol ehangach sy'n ymwneud â'ch gweithlu.

**MakeUK.org**

I ddysgu sut y gallwn eich cefnogi, siaradwch gydag un o'n hymgynghorwyr AD drwy ffonio **0808 168 5874** neu anfon e-bost at **HRenquiries@MakeUK.org**

Twitter @MakeUKCampaigns
linkedin.com/company/makeuk

#BackingManufacturing
#FutureMakers

The Manufacturers' Organisation

**makeuk.org**

Mae Make UK yn enw masnachol EEF Limited Swyddfa Gofrestredig: Broadway House, Tothill Street, Llundain, SW1H 9NQ. Cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr Rhif 05950172

©2025 Make UK